# Proffil Hunan-Werthuso Pynciau

## Maes Cwricwlwm - AAA
## Maes Gwerthuso – y Sail Statudol

| Disgrifiwr | G | D | Da | A |
|---|---|---|---|---|
| Ystyried y **Côd** Ymarfer wrth; -<br>• weithredu **gweithdrefnau**<br>• gynllunio **darpariaeth** ar gyfer disgyblion ag AAA | | | | |
| **Cyhoeddi** gwybodaeth am **bolisi AAA** yr ysgol | | | | |
| **Adrodd i rieni** yn flynyddol am **weithrediad y polisi** | | | | |
| Rhaid i'r **Corff Llywodraethu**: -<br>• Bennu **polisi ac ymagwedd** gyffredinol tuag at AAA mewn cydweithrediad â'r Pennaeth<br>• Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o bwysigrwydd **adnabod a darparu ar gyfer plant ag AAA**<br>• Cynnwys **gwybodaeth** yn ymwneud â llwyddiant y polisi AAA / unrhyw newidiadau sylweddol ynddo / unrhyw ymgynghoriad â'r AALl ac ysgolion eraill / manylion adnoddau AAA<br>• Pennu naill ai'r Pennaeth neu lywodraethwr fel y **'sawl sy'n gyfrifol'** am oruchwylio darpariaeth AAA yn yr ysgol (gallai'r CLl hefyd benodi pwyllgor i fonitro polisi a darpariaeth AAA yn gyffredinol) | | | | |

G = gwan
D = derbyniol
Da = da
A = ardderchog

## Proffil Hunan-Werthuso Pynciau

**Maes Cwricwlwm - AAA**
**Maes Gwerthuso - Safonau**

| Disgrifiwr | G | D | Da | A |
|---|---|---|---|---|
| **Mae llawer / rhan fwyaf y disgyblion: -** | | | | |
| Mae disgyblion yn cyflawni'r **safonau gorau posibl** o ystyried eu hamgylchiadau | | | | |
| Mae cyflawniadau mewn gwersi yn **cyfateb i asesiadau a bennir** o allu disgyblion | | | | |
| Mae safonau yn **cyfateb i amcanion a thargedau** Cynlluniau Addysg Unigol disgyblion | | | | |
| Mae safonau yn **cyfateb i wybodaeth yr athro** am allu disgyblion | | | | |
| **Gellir gweld gwelliannau** wrth gymharu â gwaith blaenorol disgyblion | | | | |
| Mae disgyblion yn **cyfrannu at werthuso** eu gwaith a'u cynnydd | | | | |
| Gellir gweld / dangos cynnydd o ran; -<br>• **gwybodaeth**<br>• **dealltwriaeth**<br>• **sgiliau** | | | | |
| Gall disgyblion **gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau** mewn sefyllfaoedd newydd | | | | |
| Gall disgyblion **ddewis adnoddau addas** at eu hanghenion | | | | |
| **Sgiliau Allweddol: -**<br>Mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol a mesuradwy o ran: -<br>• **Siarad**<br>• **Gwrando**<br>• **Darllen**<br>• **Ysgrifennu**<br>• **TGCh** | | | | |
| **Sgiliau Allweddol:** -<br>Mae Sgiliau Allweddol disgyblion yn caniatáu iddynt **gyrchu a gwneud cynnydd** effeithiol yn y **cwricwlwm ehangach** h.y. gall disbyblion gyrchu cwricwlwm eang a chytbwys | | | | |

G = gwan
D = derbyniol

Da = da
A = rhagorol

GDA Castell-nedd Port Talbot

# Proffil Hunan-Werthuso Pynciau

## Maes Cwricwlwm - AAA
## Maes Gwerthuso - Addysgu

| Disgrifiwr | G | D | Da | A |
|---|---|---|---|---|
| Yn caniatáu i ddisgyblion wneud y **cynnydd** gorau posibl ym mhob un o feysydd y cwricwlwm | | | | |
| Yn ystyried natur a difrifoldeb anghenion disbyblion heb fychanu gwerth eu **gallu deallusol** | | | | |
| Mae Cynlluniau Addysg Unigol ; -<br>• Yn cyfateb i **anghenion** disgyblion unigol<br>• Yn cynnwys **targedau** addas<br>• **Yn cael eu hintegreiddio** i waith y dosbarth | | | | |
| Caiff gwaith ei gydweddu â **nodau ac amcanion** gwersi ac mae'n berthnasol i anghenion pob disgybl | | | | |
| Caiff gwaith ei **wahaniaethu a'i gydweddu** â disgyblion ar wahanol gamau yn y Côd Ymarfer | | | | |
| Defnyddir **asesu (a gwybodaeth broffesiynol arall)** yn effeithiol | | | | |
| Mae **dulliau / strategaethau addysgu** yn amrywiol, yn briodol ac yn effeithiol | | | | |
| Caiff disbyblion mewn dosbarth eu **cyflyru** i ddeall, ymateb a chyfranogi'n effeithiol | | | | |
| Mae strategaethau'r ystafell ddosbarth yn cynnal **sylw disgyblion ac yn hyrwyddo ymddygiad da** | | | | |
| Mae **cymhorthion / cyfarpar** ychwanegol yn ddigonol ac yn cael ei ddefnyddio'n dda | | | | |
| Mae rhyngweithio rhwng yr **athro a'r disgybl** yn gadarnhaol | | | | |
| Gwneir defnydd effeithiol o **staff cynnal** | | | | |
| Mae **staff cynnal yn hyrwyddo** datblygu sgiliau byw'n annibynnol y disgyblion | | | | |
| Caiff athrawon dosbarth neu athrawon pwnc eu datblygu a'u cefnogi'n addas o ran cymryd **camau ataliol cynnar** (Gweithredu Ysgol) | | | | |
| Rhoddir sylw agos i **sgiliau llythrennedd a rhifedd** disgyblion | | | | |

G = gwan

D = derbyniol
Da = da
A = ardderchog

GDA Castell-nedd Port Talbot

## Proffil Hunan-Werthuso Pynciau

**Maes Cwricwlwm - AAA**
**Maes Gwerthuso - Asesu, Cofnodi ac Adrodd**

| Disgrifiwr | G | D | Da | A |
|---|---|---|---|---|
| Mae **gweithdrefnau asesu rheolaidd** i nodi anawsterau ac ymatebion priodol | | | | |
| **Agwedd fwriadol a dilyniannol** i nodi ac asesu | | | | |
| Gwneir y defnydd mwyaf posibl o'r holl **wybodaeth sydd ar gael** (y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol) | | | | |
| Mae dulliau asesu'n briodol ar gyfer **ystod eang o alluoedd ac AAA** | | | | |
| Caiff anghenion disgyblion eu **hadnabod** yn gywir | | | | |
| Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod **yn gynnar** | | | | |
| Mae addysgu a / neu gefnogaeth ychwanegol / arbenigol yn mynd i'r afael ag **anghenion unigol** yn effeithiol | | | | |
| Caiff gwybodaeth AAA ei lledaenu i staff | | | | |
| Mae **cofrestr AAA** yr ysgol; -<br>• yn cynnwys gwybodaeth gyfoes<br>• yn darparu darlun o'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion / yr ysgol<br>• yn gallu datgelu tueddiadau a phatrymau<br>• yn cael ei defnyddio i ddadansoddi agweddau ar y ddarpariaeth | | | | |
| Gwneir **sylwadau cadarnhaol** am waith disgyblion | | | | |
| Darperir arweiniad clir ynghylch sut **gellir gwella gwaith** disgyblion | | | | |
| Ystyried **trefniadau arbennig** ar gyfer profion CC / arholiadau cyhoeddus | | | | |
| Caiff cynnydd disgyblion **ei fonitro yn erbyn targedu a osodir** | | | | |
| Mae cofnodion AAA yn unol â pholisi'r ysgol ar gadw cofnodion ac mae cofnodion AAA a dosbarthiadau'r brif ffrwd yn cael eu **cydlynu** | | | | |
| Mae asesu yn helpu athrawon i **werthuso'u mewnbwn eu hunain** | | | | |
| Ar gyfer y blynyddoedd cynnar, mae cysylltiadau â datganiadau ***Canlyniadau Dymunol*** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| I ddisgyblion sy'n ***is na lefel 1***, nodir camau cynnydd bach | | | | |
| ***Ar gyfer CA4***,  caiff y canlyniadau eu cymharu / mesur yn erbyn cymwysterau a achredir yn allanol | | | | |